COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 14 IONAWR 2020, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

TH Beedle RJ Collins MJ Kearn AA Pucella
JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kirsty Evans | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

241. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd R Collins fuddiant rhagfarnus yn eitem 10 ar yr agenda, gan ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd.

242. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19/11/2019 fel rhai cywir.

243. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD CLUDO HACNI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd Cludo Hacni.

Cynghorodd yr adroddiad bod cais yn cael ei gyflwyno gan Paul Brain, i drwyddedu Dacia Logan â'r rhif cofrestru LF17 WZM fel Cerbyd Cludo Hacni preifat â 4 sedd. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i cofrestrwyd â'r DVLA yn gyntaf ym mis Mawrth 2017.

Nid oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Cludo Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Cyflwynwyd tystysgrif MOT a hanes gwasanaeth a fanylwyd ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

Cynghorodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) y cafodd y cerbyd ei archwilio ar 18 Rhagfyr 2019 gan Swyddogion Gorfodi Trwyddedu yn dilyn ei wrthod mewn cyfarfod Is-bwyllgor blaenorol oherwydd pryderon diogelwch. Yn dilyn yr archwiliad, cadarnhawyd nad oedd pryderon diogelwch na phryderon ansawdd. Roedd rhagor o fanylion ynghylch yr archwiliad yn 4.5 yr adroddiad.

Aeth aelodau yn eu blaen i archwilio'r cerbyd ymhellach a oedd ym maes parcio islawr y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl i'r cyfarfod yn ailymgynnull cafwyd cadarnhad mai milltiroedd y cerbyd oedd 17,528.

Rhoddwyd canllawiau Polisi mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau Cerbydau Cludo Hacni ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Bu i'r aelodau adael yr ystafell i ystyried y cais ymhellach ac ar ôl ailymgynnull,

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried cofrestru LF17 WZM fel Cerbyd Cludo Hacni.

Nododd aelodau nad oedd y cais yn bodloni polisi 2.1 oherwydd oedran a milltiroedd y cerbyd.

Nododd aelodau y gellir llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 y polisi, yn benodol ansawdd rhagorol y tu mewn a'r tu allan i'r car a'r safonau diogelwch eithriadol. Fel y cyfryw, roedd yr Is-Bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded.

244. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD CLUDO HACNI

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoli adroddiad a oedd yn gofyn i'r Is-Bwyllgor ystyried cais i ganiatáu trwydded am gerbyd Cludo Hacni.

Cynghorodd yr adroddiad bod cais yn cael ei gyflwyno gan Emma Parrott i drwyddedu Toyota Avensis, rhif cofrestru MD66 WXJ fel Cerbyd Cludo Hacni i gludo 4 unigolyn. Roedd y cerbyd yn un ail law ac fe'i gofrestrwyd â'r DVLA ym mis Ionawr 2017.

Nid oedd y cais yn bodloni'r Polisi Cerbyd Cludo Hacni a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu, am y rhesymau a nodir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad. Nid oedd y cerbyd yn addas i gadair olwyn. Cyflwynwyd tystysgrif MOT a hanes gwasanaeth a fanylwyd ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Cynghorodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) y cafodd y cerbyd hwn ei wrthod mewn Is-bwyllgor Trwyddedu oherwydd pryderon ynghylch diogelwch y seddi cefn. Ar 8 Ionawr, archwiliodd Swyddog Gorfodi Trwyddedu gerbyd tebyg mewn delwriaeth leol. Yn ystod yr archwiliad, nododd pan ddefnyddiwyd y weithdrefn gywir ar gyfer codi a gostwng y seddi, roeddent yn ddiogel. Roedd rhagor o fanylion ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Aeth aelodau yn eu blaen i archwilio'r cerbyd a oedd ym maes parcio islawr y Swyddfeydd Dinesig.

Ar ôl i'r cyfarfod ailymgynnull cafwyd cadarnhad mai milltiroedd y cerbyd oedd 9,540.

Rhoddwyd canllawiau'r Polisi mewn perthynas â cheisiadau am drwyddedau Cerbydau Cludo Hacni ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Bu i'r aelodau adael yr ystafell i ystyried y cais ymhellach ac ar ôl ailymgynnull,

PENDERFYNWYD: Bod yr Is-bwyllgor yn ystyried cofrestru MD66 WXJ fel Cerbyd Cludo Hacni.

Nododd aelodau nad oedd y cais yn bodloni polisi 2.1 oherwydd oedran a milltiroedd y cerbyd.

Nododd aelodau y gellir llacio'r polisi fel y nodir ym mharagraff 2.2 y polisi, yn benodol ansawdd rhagorol y tu mewn a'r tu allan i'r car a'r safonau diogelwch eithriadol. Fel y cyfryw, roedd yr Is-Bwyllgor yn fodlon caniatáu'r drwydded.

245. EITEMAU BRYS

Dim

246. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mai dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod trafodaeth o'r eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a/neu Baragraff 21 Rhan 5 Amserlen 12A y Ddeddf.

Yn dilyn y prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd, mai yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u gwahardd o'r cyfarfod, gan yr ystyrir mai ym mhob amgylchiad mewn perthynas â'r eitemau, roedd budd y cyhoedd i gynnal y gwaharddiad yn gorbwyso budd y cyhoedd i ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr dan sylw.

247. CYMERADWYAETH COFNODION WEDI’U EITHRIO

248. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR TACSI PRESENNOL

249. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR TACSI PRESENNOL

250. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR TACSI PRESENNOL